



Awarding funds from
The National Lottery[®]
Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth
Genedlaethol

Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri

Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2008



Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri
Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

Adroddiad Blynyddol

Paratowyd hwn yn unol ag adran 34(3) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Cyfrifon Blynyddol

Paratowyd y rhain yn unol ag adran 35(5) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a'u cyflwyno gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w hargraffu 16 Gorffennaf 2008
Gosodwyd gerbron Senedd Yr Alban gan Weinidogion Yr Alban 17 Gorffennaf 2008
Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon 1 Medi 2008

© Hawlfraint y Goron 2008

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio unrhyw Arfau Brenhinol a logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y Goron a nodi teitl y ddogfen.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen cael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall o'r ddogfen hon, ysgrifennwch at:
Office of Public Sector Information, Information Policy Team,
Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu e-bostiwrch: licensing@opsi.gov.uk

CYNNWYS

	Tudalen
Adroddiad Blynnyddol	2
Sylwadau'r rheolwyr	2
Adroddiad tâl	8
Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr	11
Datganiad am Reolaeth Fewnol	12
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol	14
Cyfrif incwm a gwariant	16
Mantolen	17
Datganiad llif arian	18
Nodiadau i'r cyfrifon	19
Cyfarwyddiadau polisi	29
Perfformiad corfforaethol	33
Targedau cynllun strategol	33
Dangosyddion perfformiad corfforaethol	35
Cynnydd ar brojectau dros £5 miliwn	38
Grantiau a ddyfarnwyd dros £100,000	41
Monitro cyflogaeth	53

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Sylwadau'r rheolwyr

Gwybodaeth gefndir

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ("y Gronfa Goffa") yn perthyn i gorfforaeth o'r enw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys Cadeirydd ac nid mwy na 14 o aelodau eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog, ac yn cael ei gweinyddu gan y gorfforaeth hon. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ("Deddf 1980") mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol i goffau'r rheini sydd wedi rhoi eu bywydau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 ("Deddf 1993"), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 ("Deddf 1997") a Deddf Loteri Genedlaethol 1998 ("Deddf 1998").

O dan Ddeddf 1993, daeth Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gyfrifol am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a glustnodir i'r dreftadaeth. Mae'n rhaid i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad yn ddosbarthwr cyllid y Loteri Genedlaethol. Mae ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y derbynebau o Ddeddf 1993.

O dan adran 21(1) o Ddeddf 1993, cynhelir cronfa o'r enw Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ("y Gronfa Ddosbarthu") o dan reolaeth a goruchwyliaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff pob swm a geir gan ddaliwr trwydded y Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) ei dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i roi ganddo ef yn y Gronfa Ddosbarthu. Mae ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gwneud cais i'r Gronfa Ddosbarthu am gyllid i dalu grantiau a thalu costau gweinyddu.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dyrannu 20% o'r swm a dalir i mewn i'r Gronfa Ddosbarthu ar gyfer gwariant ar y dreftadaeth genedlaethol, neu'n gysylltiedig â hi. Mae adran 23(3) yn sefydlu mai Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yw dosbarthwyr y gyfran honno. Lleihawyd y dyraniad canran yn ddilynol i 16% ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r Llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd (sef y Gronfa Loteri Fawr bellach).

Paratowyd y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd Trysorlys EM yn unol ag adran 35(3) o Ddeddf 1993.

Prif weithgareddau

O dan adran 3 o Ddeddf 1980, gall Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wneud grantiau a benthyciadau allan o'r Gronfa at ddiben cael, cynnal neu ddiogelu:

- (a) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol;
- (b) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol;
- (c) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp sydd yn ei gyfanrwydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy.

Mae Adran 4 Deddf 1993 yn ymestyn pwerau'r Ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a gynllunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr Ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo projectau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac yn anelu at ddehongli a chofnodi agweddau

pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Ar ôl ymgynghori ag ymgeiswyr posibl, cynghorwyr a chyrrff eraill, sefydlwyd mentrau newydd pellach – yn ymdrin â grantiau refeniw (i ehangu mynediad yn gyffredinol i'r dreftadaeth), yn ogystal ag ym meysydd archeoleg, trefluniau, technoleg gwybodaeth ac addysg. Rhoes Deddf 1998 y pŵer i'r Ymddiriedolwyr ddirprwyo penderfyniadau am grantiau Loteri i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr.

Nodau

Mae gennym dri nod craidd ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri, sy'n diffinio'n fras sut yr ydym yn ceisio gwella ansawdd bywyd drwy'r dreftadaeth ac, yn gysylltiedig â'r rhain, chwe diben atodol sy'n ffocws i'n gweithgareddau gwneud grantiau ac eraill. Dyma'r nodau craidd:

- annog mwy o bobl i gymryd rhan yn eu treftadaeth a gwneud penderfyniadau yn ei chylch;
- diogelu a gwella treftadaeth amrywiol y DU; a
- sicrhau bod pawb yn gallu dysgu am eu treftadaeth, ei chyrraedd a'i mwynhau.

Dyma'r dibenion atodol:

- annog cymunedau i nodi eu treftadaeth eu hunain, gofalu amdani a'i dathlu;
- hyrwyddo diogelu treftadaeth yn rhan annatod o adfywio trefol a gwledig;
- helpu i ddiogelu a chynnal treftadaeth sydd mewn perygl;
- cynyddu cyfleoedd i ddysgu am dreftadaeth;
- sicrhau bod adnoddau a safleoedd treftadaeth yn agored i'r gynulleidfa ehangaf bosibl; a
- hyrwyddo gwell gwerthfawrogiad o werth a phwysigrwydd treftadaeth ar gyfer ein lles a'n teimlad o hunaniaeth yn y dyfodol.

Offerynnau Cyllidol

Mae Safon Adrodd Ariannol 13, "Deilliadau ac Offerynnau Ariannol eraill", yn mynnu y datgelir y rôl a fu gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod, yn creu neu'n newid y risgiau y mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn eu hwynebu wrth gyflawni ei gwaith.

Risg hylifedd - yn 2007-08, roedd £200,394,000 (92%) o incwm Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn deillio o'r Loteri Genedlaethol. Roedd gweddill yr incwm yn deillio o adenillion buddsoddiad o'r balans sy'n cael ei ddal gyda Chronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £15,396,000 (7%), llog banc ac incwm amrywiol £1,174,000 (1%). Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod eu hymrwymiaadau caled (h.y. contractau grant wedi'u llofnodi) yn fwy na gwerth y cyllid yn y Gronfa Ddosbarthu ar 31 Mawrth 2008. Fodd bynnag, ystyria'r Ymddiriedolwyr nad yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt ddigon o adnoddau hylifol yn y Gronfa Ddosbarthu a'r banc i dalu pob cais tebygol am daliadau grant yn y blynnyddoedd nesaf. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi sicrhau'r Ymddiriedolwyr y byddant yn parhau i gael cyfran o'r Loteri Genedlaethol hyd nes 2019.

Risg cyfradd llog - mae asedau ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi'u buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel fel bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reolaeth ar fuddsoddiad y cyllid hwn. Ar ddyddiad y fantolen, gwerth marchnad ein buddsoddiadau yn y Gronfa Ddosbarthu oedd £567.4 miliwn. Yn y flwyddyn, yr adenillion cyfartalog ar y buddsoddiadau hyn oedd tua 6.05%. Fodd bynnag, yn dilyn y newid yn y ffordd y dyrennir incwm buddsoddiadau gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (gweler isod), roedd yr adennill cyfartalog i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar y buddsoddiadau hyn tua 2.8%. Caiff balansau arian parod, a dynnir i lawr o'r Gronfa Ddosbarthu i dalu ymrwymiaadau grant a chostau gweithredu, eu dal mewn cyfrifon banc cyfradd newidiol mynediad sydyn, a oedd yn cario cyfradd llog o 5.4% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £11,000. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod yr adenillion ar y Gronfa Ddosbarthu'n llawer llai na'r adenillion a gafwyd o'u cyfrifon banc. Fodd bynnag, mae buddsoddiad cyllid y Loteri o dan reolaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n nodi y dylai cyfradd adennill tymor hir y Gronfa Ddosbarthu fod yn uwch na chyfradd cyfrif banc. Ystyria'r Ymddiriedolwyr nad yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn agored i risgiau cyfradd llog sylweddol.

Risg arian tramor – nid yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

Risg llif arian, pris a chredyd – Ystyria'r Ymddiriedolwyr nad yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn agored i unrhyw beth heblaw risgiau anfaterol yn y meysydd hyn.

Datblygiadau'r dyfodol

Yn Ebrill 2008, cyflwynodd yr Ymddiriedolwyr eu trydydd Cynllun Strategol yn cynnwys y cyfnod 2008 i 2013.

Mae hwn yn amser hanfodol yn hanes Cronfa Dreftadaeth y Loteri, gan fod y cyllid sydd ar gael ar gyfer grantiau newydd wedi dirywio dros y blynnyddoedd diwethaf a bydd yn dirywio ymhellach i £220m yn 2008-09, ac i £180m y flwyddyn o 2009.

Yn Chwefror 2008, pasiwyd offeryn statudol gan y Senedd yn gofyn am drosglwyddo hyd at £1,085m o Gronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol i Gemau Olympaidd 2012. Roedd hyn yn cynnwys £410m fel y rhagwelwyd yn wreiddiol pan benderfynodd y Llywodraeth gefnogi'r cais a £675m pellach yn codi o adolygiad dilynol o'r gyllideb. Roedd yn ofynnol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri roi £71m yn y cais gwreiddiol, ac mae'r offeryn statudol yn gofyn am £90m arall. Disgwylir trosglwyddo'r cyllid cyntaf ym mis Chwefror 2009, a fydd yn costio hyd at £11m i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod na fydd gweithgareddau'r CDL yn dirywio yn unol â chyllidebau grant sy'n lleihau. Nid oes lle i gredu y bydd ceisiadau grant yn dirywio o ran nifer; byddwn yn parhau i gynnig cyngor cyn gwneud cais i unrhyw sefydliad sy'n gofyn am hynny, a byddwn yn parhau i fonitro a gwneud taliadau i'r miloedd o broiectau sy'n derbyn grantiau sydd i'w cwblhau.

Fel nad yw darpar ymgeiswyr yn ailystyried cyflwyno cais oherwydd y cyfleoedd llai o gael grant, mae'r CDL wedi gwneud ei phroses gwneud cais yn symlach a bydd penderfyniadau cychwynnol yn cael eu gwneud ar geisiadau yn gynharach yn y broses asesu. Bydd hyn yn golygu y bydd ar ymgeiswyr angen gwneud llai o waith cyn cael syniad a oes ganddynt gyfle o lwyddo, a byddant yn dod i wybod yn gynt. Golyga hyn hefyd y gallent dderbyn cymorth ariannol gyda llenwi eu cais llawn yn gynharach yn y broses. Yn ogystal, byddwn yn ariannu mentoriaid a fydd yn cynorthwyo rhai derbynwyr grantiau i ddatblygu eu cais llawn.

Ymgynghori â Gweithwyr Cyflogedig

Mae natur gweithrediadau'r Gronfa'n golygu bod staff sy'n prosesu ceisiadau grant yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae staff yn ymwneud â gwerthuso proiectau ac yn ymweld ag ymgeiswyr gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae sawl aelod o staff yn mynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o feddwl am ddatblygiad y Gronfa a'i gweithrediadau. Yn ogystal, mae uwch reolwyr yn sicrhau, drwy grynodedau o gyfarfodydd y Grŵp Rheoli yn y Cylchlythyr wythnosol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a lefel uchel o hygyrchedd personol, y gellir mynd i'r afael yn rhwydd â phethau sy'n peri gofid i staff. Mae'n hanfodol y caiff yr holl staff y cyfle i gyfrannu at ddatblygu'r Gronfa yn ogystal â chyflawni hyd eithaf eu gallu drwy ymgynghori a thrafod yn rheolaidd. I'r perwyl hwn, mae Cyngor Staff mewn bodolaeth. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, ac yn trafod materion o ddiddordeb i staff, gyda chynrychiolwyr o'r rheolwyr. Mae'n cyfarfod naw gwaith y flwyddyn.

Cyfle Cyfartal

Fel cyflogwr, mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cadw at ddeddfwriaeth cyfle cyfartal. Nid yw'n gwahaniaethu yn erbyn staff nac ymgeiswyr cymwys am swyddfeydd gwag ar sail rhyw, statws priodasol, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, cred grefyddol, anabledd, oedran na chyfeiriadedd rhywiol. Cymerir pob cam posibl i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg a bod penderfyniadau am recriwtio, dewis, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfa yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol sy'n seiliedig ar y swydd yn unig. Nid yw'n goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Mae'r Gronfa'n croesawu ceisiadau swydd gan bobl ag anableddau, ac ar hyn o bryd mae rhyw 4% o'n gweithlu yn bobl ag anableddau. Mae gofyn i'r holl staff gydweithio i wneud i'r polisi hwn weithio'n effeithiol.

Credydwy

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cadw at y safon Lywodraeth-gyfan am dalu biliau a Chôd Ymarfer Talu Gwell Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, sef talu pob bil dilys ymhen 30 diwrnod. Yn 2007-08, oed cyfartalog yr anfonebau a dalwyd oedd 12 diwrnod gwaith. Talwyd mwy na 91% o anfonebau ymhen 30 diwrnod calendr.

Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r Gronfa'n gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Heblaw am wneud y taliadau hyn, nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn ac eithrio tri aelod staff blaenorol. Ystyria'r Ymddiriedolwyr fod darpariaeth y fantolen, a wnaed i dalu pensiwn yr aelodau staff blaenorol yma, yn ddigonol. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Cofrestr buddiannau

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ac yn esgusodi eu hunain o'r prosesau arfarnu, trafod a phenderfynu grantiau perthnasol yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau ymglymiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau yn Ymddiriedolwr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae trefniadau cyfatebol i staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd ei gweld drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd i'r Ymddiriedolwyr (Secretary to the Trustees), 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Penodi archwilyr

Mae Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau loteri'r Ymddiriedolwyr.

Rhanddeiliaid Allweddol

Rhanddeiliaid allweddol Cronfa Dreftadaeth y Loteri yw'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sydd hefyd yn rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol sy'n buddsoddi'r arian a geir o'r Loteri Genedlaethol. Ymhlith y rhanddeiliaid allweddol eraill y mae'r cyrff hynny sy'n prosesu asesiadau ar ein rhan ar gyfer rhai rhaglenni grant, sef y Gronfa Loteri Fawr (rhaglen Arian i Bawb) ac English Heritage (rhaglen Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli).

Digwyddiadau ar ôl y fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl 31 Mawrth, hyd at y dyddiad y llofnododd y Swyddog Cyfrifyddu'r cyfrifon hyn, y mae angen dod â hwy i sylw'r darllenydd. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu'r cyfrifon i'w cyhoeddi ar 4 Gorffennaf, sef y dyddiad y cadarnhaodd Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol y cyfrifon.

Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

CADEIRYDD:	Y Fonesig Liz Forgan #
YMDDIRIEDOLWYR:	Dan Clayton Jones
	Madhu Anjali
	Mike Emmerich
	Catherine Graham-Harrison #
	Tristram Hunt
	Brian Lang
	Derek Langslow* (hyd nes 18 Chwefror 2008)
	Mike Phillips (hyd nes 31 Rhagfyr 2007)
	Matthew Saunders
	Richard Wilkin #
	Ronnie Spence *
	Kathy Gee
	Doug Hulyer *
	Christopher Woodward
	Yinnon Ezra (o 4 Chwefror 2008) *
	Alison McLean (o 18 Chwefror 2008)

PRIF WEITHREDWR: Carole Souter #

* aelod o'r Pwyllgor Archwilio

aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi

Prif Weithredwr

Carole Souter

Prif Weithredwr

Y Fonesig Liz Forgan
1 Gorffennaf 2008

Adolygiad Ariannol

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ("y Gronfa") yn gweithredu dwy gronfa – sef Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae cyfarwyddiadau cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn mynnu ei bod yn cyfrif am ei gweithgareddau ar wahân felly ni pharatoir unrhyw gyfrifon cyfunol. Dim ond gweithgareddau Cronfa Dreftadaeth y Loteri y mae'r adolygiad yn eu trafod

Mae'r Gronfa'n derbyn ceisiadau gan filoedd o sefydliadau ar draws holl gymunedau'r Deyrnas Unedig ac yn dyfarnu grantiau ar sail ei nodau. Ers i'r Loteri ddechrau yn 1994, mae CDL wedi dyfarnu dros 31,000 o grantiau ac wedi ymdrin â dros 45,000 o geisiadau am grantiau. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd mwy na 4,000 o geisiadau am grantiau, sy'n gynydd o 14% ers y llynedd. Mae hyn yn dangos bod ein gwaith i annog a hwyluso mwy o geisiadau wedi bod yn llwyddiannus ac mae'n braf gweld bod llawer o'r ceisiadau'n dod o sefydliadau llai.

Yn ystod 2007/08, gwnaeth yr Ymddiriedolwyr ymrwymadau meddal newydd a oedd yn gyfanswm o £283.9 miliwn (diffinnir ymrwymadau meddal a chaled yn nodyn 1 i'r cyfrifon). Roedd hyn yn llai na'r llynedd oherwydd bu raid i'r Ymddiriedolwyr leihau lefelau dyfarniadau er mwyn ystyried incwm yn y flwyddyn ac yn y dyfodol ac oherwydd na allant barhau i ymrwymo i ddyfarnu mwy na'r cyllid sydd ganddynt. Yr incwm ar gyfer y flwyddyn oedd £200m, gyda £15m ychwanegol mewn incwm buddsoddiad yn cael ei ennill gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ("y Gronfa Ddosbarthu") ar ein rhan.

Syrthiodd balans cyllid CDL yn y Gronfa Ddosbarthu i £567 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – sef gostyngiad o £93 miliwn yn y flwyddyn. Roedd incwm gwerthu tocynnau ychydig islaw'r rhagolwg a gafwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Chwefror 2007, £6 miliwn islaw'r rhagolwg, ond roedd incwm buddsoddiad yn unol â'u rhagolwg. Ym mis Ebrill 2007, newidiodd yr Adran ei dull dyrannu incwm buddsoddiad y Gronfa Ddosbarthu. O ganlyniad i'r newid hwn, ni

fyddwn bellach yn cael incwm buddsoddiad sy'n seiliedig ar ein cyllid yn y Gronfa Ddosbarthu, ond yn seiliedig ar ein dyraniad canran safonol o 16.67%, ac o ganlyniad gostyngodd ein hincwm yn sylweddol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i gydnabod y dylai'r balans yn y Gronfa Ddosbarthu ostwng ymhellach. Ymrwymo i ddyfarnu mwy na'r incwm yw'r prif ddull y mae Ymddiriedolwyr yn disgwyl ei ddefnyddio i leihau'r balans yn y Gronfa Ddosbarthu. I'r perwyl hwn, y gyllideb dyfarnu grantiau ar gyfer 2008/09 yw £220 miliwn, sydd lawer yn fwy na'r incwm a ragwelwyd sef rhyw £208 miliwn, gan gynnwys llog y Gronfa Ddosbarthu a ragwelir. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd CDL wedi ymrwymo £448 miliwn yn fwy na'r hyn yr oedd ganddi yn y Gronfa Ddosbarthu – sef dwy flynedd o incwm a ragwelir. Roedd balans rhwymedigaethau cytundebol yn fwy nag asedau net CDL yn ystod y flwyddyn ac roedd diffyg net ar y fantolen o £94.1 miliwn ar 31 Mawrth 2008. Paratowyd y cyfrifon ar sail weithredol fel y mae cyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynnu ac oherwydd y sicrhawyd yr Ymddiriedolwyr y byddant yn cael incwm gan y Loteri Genedlaethol hyd nes 2019 o leiaf.

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r ymrwymadau meddal a wnaed a hefyd trosiad ymrwymadau meddal mewn blynyddoedd blaenorol yn ymrwymadau caled yn 2007-08. Caiff ymrwymadau meddal eu troi'n ymrwymadau caled pan fydd contract wedi'i lofnodi gyda derbynnydd y grant.

Roedd mwy na hanner y penderfyniadau a wnaed yn y flwyddyn (£167.6 miliwn) ar gyfer penderfyniadau cam un o dan y broses benderfynu dau gam. Roedd y gweddill (£116.3 miliwn) ar gyfer dyfarniadau grant yn y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, llofnodwyd contractau ar gyfer £294.3 miliwn o grantiau – h.y. ymrwymadau caled newydd.

£m	Penderfyniad cam un	Dyfarniadau grantiau	Ymrwymadau Caled	Cyfanswm y penderfyniadau
Ar 1 Ebrill 2007	279.0	120.7	679.4	
Penderfyniadau Ymddiriedolwyr r yn y flwyddyn	167.6	116.3	–	283.9
Troswyd yn y flwyddyn	(140.8)	140.8	–	
Troswyd yn y flwyddyn	–	(294.3)	294.3	
Dad-ymrwymadau	(31.9)	(2.6)	(14.0)	
Taliadau grant	–	–	(299.4)	
Ar 31 Mawrth 2008	273.9	80.9	660.3	

Cododd costau staff 4% yn y flwyddyn yn bennaf oherwydd cost gynyddol cyfrannu at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, gan fod CDL yn gweithredu'r rhaglen Parciau i Bobl mewn cydweithrediad â'r Gronfa Loteri Fawr, mae wedi cael cyfraniad o £653,000 (2006-07: £740,000) gan y gronfa honno tuag at gost gweinyddu'r cynllun. Effaith net y derbynebau hyn, ynghyd â chamau effeithlonrwydd eraill, yw bod costau gweinyddol wedi gostwng gan 1%, er bod cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr wedi gostwng 12%. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo'r gwaith a wnaed gan reolwyr a staff i leihau costau. Roedd nifer cyfartalog y staff 6 yn llai yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod, o ganlyniad i incwm sy'n gostwng gan y Loteri Genedlaethol, wrth arwain at Gemau Olympaidd Llundain, bod angen cwtogi ar gostau gweinyddol drwy arbedion effeithlonrwydd a lleihad naturiol ar niferoedd staff. Am ragor o fanylion am niferoedd staff, gweler nodyn 3 i'r cyfrifon.


Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylid cyflawni gwell effeithlonrwydd yn y costau gweinyddu ar draul y gwasanaeth i'n rhanddeiliaid. Maent yn falch o adrodd bod cyflawniad targedau lefel gwasanaeth ar gyfer ymgeiswyr a rhai sy'n derbyn grantiau wedi gwella eto yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth bellach am ein targedau lefel gwasanaeth ar gael mewn manau eraill yn y ddogfen hon.

Bu'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau sy'n wynebu Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn y flwyddyn ac maent wedi adlewyrchu eu hystyriaethau mewn cofrestr o'r risgiau hynny. Pryderir ynghylch effaith colli'r arian sy'n cael ei ailgyfeirio i gefnogi Gemau Olympaidd Llundain a bydd y Gronfa Goffa'n gweithio tuag at liniaru'r effaith yn ystod y flwyddyn nesaf. Ar wahân i hynny, nid yw'r Ymddiriedolwyr yn credu y bu newid sylweddol yn yr amgylchedd risg yn ystod y flwyddyn. Trafodir y prif risgiau ymhellach yn y Datganiad am Reolaeth Fewnol.

Prif ddangosydd perfformiad

Mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri enw da am ddosbarthu cyllid y Loteri'n effeithiol. Mae'r graff isod yn nodi ein costau gweinyddol ymhob un o'r pum mlynedd ddiwethaf – y llinell olau. Mae'r llinell dywyll yn dangos gwerth costau gweinyddu a gafwyd pum mlynedd yn ôl pan gawsant eu cynyddu yn unol â Dadchwyddwr GDP y Trysorlys – amcangyfrif o lefel gyffredinol chwyddiant yn economi Prydain. Mae'n bleser gan Ymddiriedolwyr nodi bod costau gweinyddu yn 2007-08 yn £4.4 miliwn (neu 17.5%) yn is nag y byddai chwyddiant ers 2003-04 wedi ei awgrymu – sy'n cynrychioli gostyngiad real arwyddocaol mewn costau gweinyddu.

Costau Gweinyddol Gwirioneddol vs Costau Gweinyddol Chwyddedig 2003-04



Data personol

Nid yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cael unrhyw achosion lle datgelwyd data personol yn ddiofal i drydydd parti. Bydd y CDL yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi ac ymdrin ag unrhyw wendidau a sicrhau y gwneir gwelliannau parhaus i'w systemau.

Adroddiad Tâl

Tâl y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr

Roedd hawl gan bob Ymddiriedolwr gael cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Yn ogystal, fe wnaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ad-dalu costau teithio rhai Ymddiriedolwyr o'u cartrefi i'w swyddfa waith yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belffast. Talodd y Gronfa'r rhwymedigaeth dreth ar y costau hyn.

Mae tâl yr Ymddiriedolwyr hynny a gafodd eu talu, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn cael ei rannu i'r bandiau canlynol.

	2007-08 £000	2006-07 £000
Gwybodaeth archwiliedig		
Y Fonesig Liz Forgan (Cadeirydd)	40 - 45	40 - 45
Richard Wilkin	10 - 15	5 - 10
Primrose Wilson	0	0 - 5
Nicholas Dodd	0	5 - 10
Dan Clayton Jones	20 - 25	20 - 25
James Wright	0	5 - 10
Giles Waterfield	0	0 - 5
Mike Phillips	0 - 5	5 - 10
Derek Langslow	5 - 10	5 - 10
Catherine Graham-Harrison	5 - 10	5 - 10
Madhu Anjali	5 - 10	10 - 15
Tristram Hunt	5 - 10	5 - 10
Matthew Saunders	5 - 10	5 - 10
Ronnie Spence	20 - 25	20 - 25
Kathy Gee	5 - 10	0 - 5
Doug Hulyer	10 - 15	5 - 10
Christopher Woodward	5 - 10	0 - 5
Yinnon Ezra	0 - 5	0
Alison McLean	0 - 5	0
Brian Lang	20 - 25	20 - 25
Mike Emmerich	5 - 10	10 - 15

Mae gan bob Ymddiriedolwr benodiad tair blynedd, y gellir ei adnewyddu am ail dymor. Fe'u penodir gan y Prif Weinidog. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan y Gronfa at gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr. Dyrannwyd holl dâl yr Ymddiriedolwyr rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar sail 99%: 1%. Cyfanswm tâl yr Ymddiriedolwyr yn 2007-08 oedd £227,946 (2006-07 £239,470). Caiff tâl a chontractau'r Ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Tâl cyflogeion

Roedd tâl cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

Gwybodaeth archwiledig	Cyflog gan gynnwys bonws perfformiad 07/07	Cyflog gan gynnwys bonws perfformiad 06/07	Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad	Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 a chyfandaliad	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31-3-08	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31-3-07	Cynnydd real mewn CETV a ariennir gan y Gronfa Goffa
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Carole Souter <i>Prif Weithredwr</i>	120-125	120-125	0-2.5 a 2.5-5 cyfandaliad	40-45 a 120-125 cyfandaliad	776	649	25
Stephen Johnson <i>Cyfarwyddwr Gweithrediadau</i>	20-25	100-105	0-2.5	amherth-nasol	amherth-nasol	1,038	8
Bob Bewley <i>Cyfarwyddwr Gweithrediadau</i>	65-70	amherth-nasol	5-7.5 a 15-17.5 cyfandaliad	20-25 a 70-75 cyfandaliad	457	289	117
Judy Cligman <i>Cyfarwyddwr Polisi a Strategaeth</i>	85-90	80-85	0-2.5 a 2.5-5 cyfandaliad	20-25 a 70-75 cyfandaliad	431	348	27
Steve Willis <i>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau</i>	105-110	100-105	0-2.5 a 2.5-5 cyfandaliad	45-50 a 140-145 cyfandaliad	1006	853	30

Mae Swyddfa'r Cabined, sy'n darparu'r wybodaeth am bensiynau yn y tabl uchod, wedi rhoi gwybod i ni, o ganlyniad i'r ffaith bod ffactorau penodol yn anghywir yng nghyfrifiannell CETV y llynedd, mae gwahaniaeth rhwng y CETV ar 31 Mawrth 2007 o gymharu â'r hyn a ddatgelwyd yng nghyfrifon y llynedd.

Ymddeolodd Stephen Johnson yn ystod y flwyddyn a chymerodd Bob Bewley ei le.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio pan fydd yn cyrraedd 60, neu ar unwaith os bydd yn peidio â bod yn aelod gweithgar o'r cynllun os yw eisoes yn 60.

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian – Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronir gan aelod ar adeg benodol. Y budd-daliadau a brisiwyd yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan y cynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid yn unig eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo'n prynu blynnyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn y canllawiau a'r fframwaith a bennwyd gan Sefydliad a Chyfadrann yr Actiwariaid, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan godir budd-daliadau pensiwn.

Cynnydd real mewn CETV – Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiaid marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob uwch gyflogai gcontractau cyflogaeth parhaol ac roeddent yn aelodau arferol o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar sail 99%: 1% (2006-07: 99%: 1%). Caiff tâl a chontractau uwch gyflogeion eu trafod a'u gosod gan y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi. (Datgelir aelodaeth y pwyllgor hwn ar dudalen 5). Mae tâl uwch reolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad. Mae'r swm yn seiliedig ar berfformiad mewn perthynas ag amcanion unigol a chyfraniad cyffredinol at strategaeth a nodau corfforaethol. Gosodir amcanion unigol i'r Prif Weithredwr gan Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac mae'r Prif Weithredwr yn ei dro'n cytuno ar amcanion personol â'r 3 chyfarwyddwr swyddogaeth. Mae amcanion yn adlewyrchu nodau strategol a gweithredol y Gronfa a'r cyfraniad a ddisgwyllir gan bob uwch reolwr unigol i gyrraedd y nodau. Mae gan y Gronfa system rheoli perfformiad ac mae perfformiad yn cael ei adolygu yn unol â hyn. Caiff perfformiad ei adolygu bob blwyddyn ym mis Mawrth/Ebrill a'i ddosbarthu ar raddfa o 4 gwahanol lefel cyflawniad. Mae cynllun bonws ar gyfer y cyfarwyddwyr sy'n ystyried barn y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi am gyfraniad yr unigolyn tuag at lwyddiant ehangach y sefydliad, gyda chyfeiriad penodol at y ffordd y mae'n rheoli ei adran ei hun a'i effaith ar feysydd eraill; effaith yr unigolyn ar yr Ymddiriedolwyr a'u heffeithiolrwydd; ac unrhyw gyfraniad neu gyflawniad eithriadol yn ystod y flwyddyn na chafodd ei adlewyrchu yn yr amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn. Disgwyllir i'r polisi hwn barhau yn y dyfodol. Penodir uwch reolwyr ar gcontractau penagored gyda chyfnodau rhybudd heb fod yn fwy na 6 mis. Pe byddai angen ystyried taliadau terfynu, byddai'r Gronfa'n cadw'n llawn at reolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan y Trysorlys neu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Prif Weithredwr

Carole Souter

1 Gorffennaf 2008

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr

O dan adran 34(1) o Ddeddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993, mae gofyn i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol baratoi cyfriflenni ar gyfer pob blwyddyn ariannol am eu gweithgareddau dosbarthu arian y loteri yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi golwg wir a theg ar sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, o'i henillion a'i cholledion cydnabyddedig ac o'i hincwm a'i gwariant a'i llofoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae gofyn i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gydymffurfio â gofynion Canllaw Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon yn rhesymol;
- nodi a ddilynwyr y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yng Nghanllaw Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar y sail weithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa'n parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus, am ddiogelu asedau'r Gronfa a chadw cofnodion priodol, yn cael eu nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, a gyhoeddir gan y Trysorlys ac a gyhoeddir yn Government Accounting.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Prif Weithredwr
Carole Souter

Y Cadeirydd
Y Fonesig Liz Forgan
1 Gorffennaf 2008

Datganiad am Reolaeth Fewnol

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisiau, nodau ac amcanion Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac ar yr un pryd yn diogelu'r cyllid a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd imi yn Government Accounting.

Rwyf yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ("y Gronfa Goffa") sy'n rhannu cyfrifoldeb i wneud y canlynol:

- Roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- Diffinio dulliau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus;
- Goruchwyllo'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau'r Gronfa Goffa; ac
- Adrodd am stiwardiaeth cyllid cyhoeddus.

Cyflawnir y cyfrifoldeb hwn drwy gyfarfodydd rheolaidd yr Ymddiriedolwyr ag uwch reolwyr i osod polisi ar gyfer y Gronfa Goffa a gwneud penderfyniadau yn unol â pholisi. Yn ogystal, mae is-bwyllgorau Ymddiriedolwyr, yn benodol y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi a'r Pwyllgor Archwilio, yn goruchwyllo gweithgareddau rheoli ac yn rhoi cefnogaeth. Mae'r holl weithgarwch gosod polisi a phenderfynu grantiau yn cael ei lywio gan ddiwylliant rheoli risg y Gronfa Goffa. Yn benodol, mae'r Pwyllgor Archwilio'n trafod yn rheolaidd yr adroddiadau risg a lunnir gan reolwyr ac yn eu holi am y dulliau a ddefnyddiant i liniaru risg. Yn ogystal, mae'r Gronfa Goffa'n aelod o Grŵp Rheoli Risg Fforwm y Loteri. Mae'r grŵp hwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr dosbarthwyr y Loteri, wedi creu fframwaith risg cyffredin.

Caiff cynllun gweithredu blynyddol y Gronfa Goffa – y Cynllun Busnes – ei drafod â'n hadran noddi, yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ("yr Adran"). Mae'r Adran hefyd wedi gosod Cyfarwyddiadau Polisi ac Ariannol yr ydym wedi cytuno i gydymffurfio â hwy yn ein gweithgareddau Loteri (ac o Ebrill 2008 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi). Rydym hefyd yn gweithredu yn unol â Datganiad Rheoli cytunedig a Memorandwm Ariannol sy'n seiliedig ar dempled a luniwyd gan y Trysorlys. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd ag uwch swyddogion yr Adran a chyd-ddosbarthwyr y Loteri.

Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion; dim ond rhoi sicrhad rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall felly. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Gronfa Goffa, i werthuso tebygrwydd sylweddoli'r risgiau hynny a'r effaith pe byddent yn cael eu sylweddoli, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn y Gronfa ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol ac mae'n cydsynio ag arweiniad y Trysorlys.

Gallu i drin risg

Y Grŵp Rheoli, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o uwch reolwyr y Gronfa Goffa, sy'n arwain ar bob agwedd ar reoli risg. Mae'n penodi perchenogion risg ac yn eu gwneud yn gyfrifol am greu a chymhwyso strategaethau i liniaru'r risg o dan eu rheolaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, sy'n cynnwys tri Ymddiriedolwr, yn trafod y broses rheoli risg yn rheolaidd ac yn adrodd yn ôl i'r prif gorff o Ymddiriedolwyr am reoli risg. Ymhellach, mae archwiliadau mewnol ac allanol yn adolygu'r prosesau rheoli risg yn rhan o'u gwaith a gallant roi budd eu profiad o weithgareddau rheoli risg sefydliadau eraill.

Mae staff, o reolwyr canol i fyny, wedi cael hyfforddiant mewn technegau rheoli risg.

Y fframwaith risg a rheoli

Lluniodd y Grŵp Rheoli ddatganiad rheoli risg sy'n disgrifio sut y mae'r Gronfa Goffa'n nodi, monitro ac yn rheoli risgiau a chyfleoedd. Adolygir y datganiad hwn yn rheolaidd. Bob blwyddyn, caiff risgiau eu categoreiddio drwy ystyried pa mor debygol y maent o ddigwydd pe na fyddai unrhyw weithgarwch lliniaru risg yn digwydd a'r effaith pe byddai'r risg yn digwydd. Mae'r risgiau lle ystyrir bod yr effaith bosibl yn uchel yn ffurfio cofrestr risg y Gronfa Goffa. Wedyn mae'r Tîm Uwch Reolwyr yn rhoi'r dasg i'r uwch reolwyr (y "perchenogion risg") o roi gweithdrefnau ar waith i fonitro risg, ac os yw'n bosibl, ei liniaru. Mae'r Tîm Uwch Reolwyr yn adolygu effeithiolrwydd eu gwaith bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu ac yn cwestiynu gweithgareddau perchenogion risg yn rheolaidd.

Yn 2007-08, ystyriodd y Gronfa Goffa mai'r canlynol yw'r meysydd risg mwyaf sylweddol:

- ein hincwm yn gostwng y tu hwnt i ddisgwyliadau;
- grantiau a ddyfarnwyd yn methu bodloni ein hamcanion strategol;
- ein strategaeth yn methu bodloni anghenion y dreftadaeth a'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol, ac felly diffyg cefnogaeth iddi gan ein rhanddeiliaid;
- methu gosod a dilyn gweithdrefnau effeithlon yn gywir na'n gyson ar gyfer cyfnodau cyfredol y Cynllun Strategol a chyfnodau'r dyfodol, gan achosi risg twyll neu wneud penderfyniadau gwrthnysig sy'n agored i her yn y gyfraith;
- methu â recriwtio a chadw staff o safon ddigonol;
- diffyg cydnabyddiaeth ddigonol am gyfraniad CDL/y Gronfa Goffa gan rai sy'n derbyn grantiau;
- bod cefnogaeth a dylanwad yn lleihau o ganlyniad i fawr o ymwybyddiaeth na dealltwriaeth o'n cyfraniad gan randdeiliaid a'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri; a
- newidiadau i aelodaeth a chynrychiolwyr o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn arwain at ddryswch ac anghysondeb wrth wneud penderfyniadau.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r uwch reolwyr yn y Gronfa Goffa sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Caf arweiniad gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, sy'n gweld adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol, ac mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod y system rheolaeth fewnol yn gwella'n barhaus.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n trafod holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol ym mhresenoldeb aelodau o staff uwch. Os yw'r archwilwyr mewnol yn nodi diffygion penaethiaid adran, mae gofyn i'r penaethiaid hyn lunio cam cywirol a gosod dyddiad cwblhau ar gyfer y cam hwnnw mewn ymgynghoriad ag archwilwyr mewnol. Caf adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr sy'n rhoi gwybod imi am y cynnydd y mae fy mhenaethiaid adran wedi'i gyflawni yn gwella'r pwyntiau a godwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol.

O ganlyniad i'r uchod, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw beth sy'n peri imi gredu bod ein systemau ar gyfer canfod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a chanfod twyll ac ar gyfer lleihau colledion cymorth grant a grant Loteri yn annigonol.

Prif Weithredwr

Carole Souter

1 Gorffennaf 2008

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd a Senedd Yr Alban

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol o Weithgareddau Dosbarthu Arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y diwygiwyd). Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a osodwyd allan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Cyfrifoldebau priodol yr Ymddiriedolwyr, y Prif Weithredwr a'r archwiliwr

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynnyddol, yr Adroddiad Tâl a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wnaed ar ôl hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, ac yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Adroddaf ichi a ydwyf yn credu bod y datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wnaed ar ôl hynny. Adroddaf ichi a wyf yn credu bod Sylwadau'r Rheolwyr, a geir yn yr Adroddiad Blynnyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol. Adroddaf hefyd a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob ystyriaeth faterol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, adroddaf ichi os nad yw Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw gwybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM ynghylch tâl a thrafodion eraill yn cael ei datgelu.

Adolygaf a yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ag arweiniad Trysorlys EM am y Datganiad am Reolaeth Fewnol, ac adroddaf os nad yw. Nid oes gofyn imi ystyried a yw'r datganiad hwn yn ymdrin â phob risg a rheolaeth, na llunio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol na'i gweithdrefnau risg a rheolaeth.

Rwyf yn darllen gweddill y wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynnyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys holl adrannau'r Adroddiad Blynnyddol, ac eithrio Sylwadau'r Rheolwyr. Ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad i os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sail y darn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys astudiaeth, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol sy'n cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol a rhan yr Adroddiad Tâl i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau sylweddol a wnaed gan yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac yn asesu a yw'r polisïau cyfrifyddu yn fwyaf priodol i amgylchiadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ystyriais fod eu hangen i gael digon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol fod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio yn rhydd o gamddatganiad materol, p'un ai yr achosir gan dwyll neu wall, a bod y gwariant a'r incwm ym mhob ystyriaeth faterol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth lunio fy marn, gwerthusais hefyd ddigonolrwydd cyffredinol cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio.

Barnau

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg, yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wnaed ar ôl hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM, ar gyflwr Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol fel ar 31 Mawrth 2008 a'i chostau gweithredol net, ei henillion a cholledion cydnabyddedig, a llif arian a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wnaed ar ôl hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynnyddol, sy'n cynnwys Sylwadau'r Rheolwyr, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Barn Archwilio am Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth faterol mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

T.J. Burr

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 151 Buckingham Palace Road, Llundain, SW1W 9SS

4 Gorffennaf 2008

Cyfrif Incwm a Gwariant

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

	Nodiadau	£'000	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Enillion o'r Loteri Genedlaethol	9		200,394	201,031
Incwm buddsoddiad y Gronfa Ddosbarthu	9	15,396		37,933
Colled ar ailbriso buddsoddiadau yn y Gronfa Ddosbarthu		—		(7,925)
			15,396	30,008
			215,790	231,039
Llog sy'n dderbyniadwy		936		493
Incwm amrywiol	2	238	1,174	181
Cyfanswm incwm			216,964	231,713
Ymrwymadau caled newydd	11	(294,330)		(332,574)
Dad-ymrwymadau caled	11	14,002		13,183
			(280,328)	(319,391)
Costau staff	3	(10,271)		(9,888)
Dibrisiad	7	(280)		(337)
Costau gweithredu eraill	4	(10,030)		(10,115)
			(20,581)	(20,340)
Cyfanswm y gwariant			(300,909)	(339,731)
Diffyg gweithredol			(83,945)	(108,018)

Mae'r holl ffigurau a ddangosir yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus.

Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

	Nodyn	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Symudiad cronfa ailbriso	17	1,248	—

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 30 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.

Mantolen

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

	Nodiadau	£000	2007-08 £000	2006-07 £000
Asedau sefydlog				
Asedau sefydlog diriaethol	7		821	986
Asedau cyfredol				
Buddsoddiadau – balans yn y Gronfa Ddosbarthu	9	567,428		660,257
Dyledwyr	8	931		1,212
Arian yn y banc ac mewn llaw		11		8,137
			568,370	669,606
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn	10		(2,823)	(2,499)
Ymrwymadau grant sy'n ddyledus ymhen blwyddyn	11		(290,347)	(329,517)
Asedau cyfredol net			275,200	337,590
Cyfanswm asedau heb rwymedigaethau cyfredol			276,021	338,576
Ymrwymadau grant sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn	11		(370,020)	(349,899)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau	6		(98)	(77)
Cyfanswm asedau heb rwymedigaethau			(94,097)	(11,400)
Cynrychiolir gan:				
Refeniw ailbrisio	17		1,248	–
Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen		(11,400)		96,618
Symudiad mewn blwyddyn		(83,945)	(95,345)	(108,018)
Cyfrif incwm a gwariant a gariwyd ymlaen			(94,097)	(11,400)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 30 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.

Prif Weithredwr

Carole Souter

Y Cadeirydd

Y Fonesig Liz Forgan

1 Gorffennaf 2008

Datganiad Llif Arian

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

	Nodiadau	2007-08 £000	2006-07 £000
Gweithgareddau gweithredu			
Arian a dynnwyd i lawr o'r Gronfa Ddosbarthu	9	309,867	367,196
Arian o ffynonellau eraill	2	238	181
Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan		(10,225)	(9,839)
Arian a dalwyd i gyflenwyr		(9,408)	(10,865)
Arian a gafwyd gan dderbynyddion benthygiad		-	298
Arian a dalwyd i dderbynyddion grant a benthygiad	11	(299,377)	(339,071)
Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu	13a	(8,905)	7,900
Adenillion ar fuddsoddiad a gwasanaethu cyllid			
Llog a gafwyd ar gyfrifon banc		894	529
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol	13b	(115)	(136)
(Gostyngiad)/cynnydd arian		(8,126)	8,293

		2007-08 £000	2006-07 £000
Cysoni llif arian net i symudiad mewn cyllid net			
(Gostyngiad)/cynnydd arian yn y cyfnod		(8,126)	8,293
Newidiadau mewn cyllid net	13c	(8,126)	8,293
Cyllid net ar 1 Ebrill 2007		8,137	(156)
Cyllid net ar 31 Mawrth 2008		11	8,137

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 30 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.

Nodiadau i'r Cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

a) Confensiwn cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Cânt eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985, arferion cyfrifeg gyffredinol dderbyniol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP) a'r gofynion datgelu a chyfrifyddu sy'n cael eu cynnwys yn y Canllaw Adrodd Ariannol (Frem), cyhyd â bod y gofynion hynny'n briodol. Mae Cyfarwyddyd Cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd i'r Gronfa Goffa ym mis Hydref 2002 gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn eithrio'n benodol paratoi cyfrifon cyfunol. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol gan fod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi sicrhau i'r Ymddiriedolwyr y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan y Loteri Genedlaethol tan 2019 o leiaf. Mae copïau o Gyfarwyddiadau Cyfrifon y Loteri Genedlaethol ar gael gan yr Ysgrifennydd i'r Ymddiriedolwyr (Secretary to the Trustees), 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

b) Asedau sefydlog

Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau sefydlog diriaethol, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae'r oesoedd hyn fel a ganlyn:

eiddo prydles fer	–	oes y brydles.
offer TG	–	4 –10 mlynedd
gosodiadau swyddfa	–	4 –10 mlynedd

c) Dyrannu costau

Caiff gweithrediadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol eu rhannu'n ddwy gronfa - sef Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri - gan adlewyrchu'r ddwy ffynhonnell incwm. Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn mynd i gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae gofyn i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â'r Canllaw Ffioedd a Chostau a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r dosraniad cost hwn yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a ymrwymwyd i'r ddwy gronfa. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri oedd 99%. Adroddir am ganlyniadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn cyfres o gyfrifon ar wahân.

d) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn statudol eithriedig. Nid yw Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gallu adennill Treth Ar Werth a godir arni a chaiff y gost TAW gynhwysol ei chynnwys o dan y penawdau gwariant perthnasol.

e) Pensiwn

Caiff cost reolaidd darparu buddion ei chodi ar y cyfrif incwm a gwariant yn ystod oesoedd gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae staff yn aelodau o PCSPS a hysbysir canran y tâl pensiynadwy gan Swyddfa'r Cabinet ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Mae un aelod o staff, sydd bellach wedi ymddeol, nad yw yn PCSPS. Cynhelir darpariaeth ar wahân ar gyfer ei daliadau pensiwn ef. Nid yw'r Gronfa Goffa wedi dilyn FRS17 o ran cael prisiad actiwaraid o rwymedigaethau pensiwn yr unigolyn hwn, oherwydd cost cael prisiad felly.

f) Prydlesi

Codir y rhent blynyddol ar brydlesi gweithredol ar y cyfrif incwm a gwariant ar sail llinell syth yn ystod cyfnod y brydles.

g) Balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balansau sy'n cael eu dal yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, mae cyfran y balansau hyn i'w phriodoli i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol fel y dangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y fantolen, wedi'i thystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod ar gael i'w dosbarthu gan yr Ymddiriedolwyr o ran ymrwymadau cyfredol ac ymrwymadau'r dyfodol.

h) Ymrwymadau Grant

Mae ymrwymadau "meddal", fel y diffinnir gan Gyfarwyddyd Cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn cynrychioli penderfyniadau cadarnhaol a wneir gan Ymddiriedolwyr yn amodol ar gwblhau contract yn llwyddiannus. Pan fydd y ddwy ochr wedi llofnodi'r contract, disgrifir bod yr ymrwymiad yn "galed". Mae dad-ymrwymadau meddal yn digwydd pan nad yw dyfarniad neu rhan-ddyfarniad yn cael ei droi'n ymrwymiad caled - fel arfer gan fod y sawl sy'n derbyn y grant yn penderfynu peidio ag ymgymryd â'i broject. Mae dad-ymrwymadau caled yn digwydd pan nad oes angen ar y project sy'n cael ei ariannu yr holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract. Mae'r holl ymrwymadau grantiau yn daladwy yn uniongyrchol ar ôl derbyn ceisiadau talu dilys.

i) Benthyciadau

Mae hawl gan yr Ymddiriedolwyr wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan Gyfarwyddiadau Ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae cyfraddau llog a thelerau ad-dalu fel y gwêl yr Ymddiriedolwyr yn ddoeth.

2. Incwm amrywiol

	2007-08 £000	2006-07 £000
Ad-dalu grantiau	238	181

3. Costau a niferoedd staff

	2007-08 £000	2006-07 £000
Cyflogau	7,875	7,611
Taliadau YG y cyflogwr	533	562
Taliadau i gynllun pensiwn (gweler nodyn 6)	1,493	1,415
Costau staff dros dro	370	300
	10,271	9,888

Roedd nifer cyfartalog y cyflogeion yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

2007-08	Ceisiadau grant	Cyllid a Gweinyddu	Polisi ac Ymchwil	Cysylltiadau Cyhoeddus	Cyfanswm
Staff parhaol	170	36	14	18	238
Secondeion, staff dros dro a staff contract	15	3	1	3	22
Cyfanswm	185	39	15	21	260

2006-07	Ceisiadau grant	Cyllid a Gweinyddu	Polisi ac Ymchwil	Cysylltiadau Cyhoeddus	Cyfanswm
Staff parhaol	176	38	15	18	247
Seondeion, staff dros dro a staff contract	10	4	3	2	19
Cyfanswm	186	42	18	20	266

4. Diffyg Gweithredol

Nodir y diffyg gweithredol ar ôl codi'r canlynol:

	2007-08 £000	2006-07 £000
Tâl yr archwiliwr	36	34
Taliadau o dan brydlesi gweithredol -		
Safleoedd pryddlesol	1,353	1,233
Llogi offer swyddfa	25	16

Dyma ddadansoddiad o gostau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod:

	2007-08 £000	2006-07 £000
Llety	2,147	2,056
Post a ffôn	383	384
Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu	164	163
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch - Ymddiriedolwyr	120	108
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch - staff	387	434
Ffioedd proffesiynol - cysylltiedig â grant	3,535	4,009
Ffioedd proffesiynol - heb fod yn gysylltiedig â grant	1,496	1,411
Cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu	1,250	1,038
Offer swyddfa	292	234
Hyfforddiant staff	200	161
Costau amrywiol	56	117
	10,030	10,115

5. Costau a ailgodir

Fel y datgelwyd yn nodyn 1 i'r cyfrifon hyn, mae gofyn i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddosrannu ei chostau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd oedd 99%. O 1 Ebrill 2002, trosglwyddwyd holl weithgareddau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i Holbein Place, Llundain. O ganlyniad, mae costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn cael eu hailgodi'n llawn ar Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

6a. Pensiynau

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Ers 30 Gorffennaf 2007, mae staff newydd heb unrhyw aelodaeth flaenorol o PCSPS yn gallu ymuno â Nuvos. Mae hwn yn gynllun pensiwn budd-daliadau indecs gyswllt o ansawdd uchel. Ar hyn o bryd, mae cyfradd cyfrannu aelodau yn 3.5% a bydd yn rhoi pensiwn budd-daliadau diffiniedig gydag oedran pensiwn o 65.

Mae staff a ymunodd cyn 30 Gorffennaf 2007, neu sydd ag aelodaeth gymwys PCSPS flaenorol wrth ymuno ar ôl y dyddiad hwnnw, yn parhau mewn un o dri chynllun â buddion wedi'u diffinio 'cyflog terfynol' statudol (*classic*, *premium*, a *classic plus*). Nid yw'r cynlluniau'n cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan *classic*, *premium*, a *classic plus* eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu.

Gosodir cyfraniadau cyflogeion ar y gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer *classic* a 3.5% ar gyfer *premium* a *classic plus*. Mae buddion yng nghynllun *classic* yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer *premium*, mae buddion yn cronni ar gyfradd 1 rhan o 60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i *classic*, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) rhywfaint o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). I bob pwrpas, mae *classic plus* yn amrywiad o *premium*, ond gyda buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â chynllun *classic*.

Y trefniant cynllun pensiwn arall yw Pensiwn Rhanddeiliad, sef Cyfrif Pensiwn Partneriaeth. Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy at PCSPS i dalu cost yswiriant budd risg cyfandaliad a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil salwch). Mae saith aelod staff â chyfrif pensiwn partneriaeth ar hyn o bryd. Ni wnaeth unrhyw aelodau staff ymddeol yn gynnwys ar sail iechyd yn ystod 2007-08.

Gellir gweld manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n paratoi ei ddatganiadau cynllun ei hun, ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Er bod y cynlluniau'n gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a sicrhau gan y PCSPS yn talu cost sicrhau pensiwn a ddarperir i'r staff a gyflogant drwy dalu costau a gyfrifir ar sail gronni. Ar gyfer 2007-08, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £1,439,316 (2006-07: £1,415,106) i'r PCSPS ar y cyfraddau a nodir yn y tabl isod. Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadolygu bob pedair blynedd ar ôl prisiad cynllun llawn gan actwari'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan achosir y costau mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun. Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail bandiau cyflog, fel a ganlyn:

Cyflog yn 07-08	% yn 07-08
£19,000 ac is	17.1%
£19,501 – £39,000	19.5%
£39,001 – £66,500	23.2%
£66,501 ac uwch	25.5%

Yn 2005/06, ymddeolodd yr un aelod o staff a oedd wedi parhau'n aelod o gynllun Joint Superannuation Services ("JSS"). Roedd JSS wedi rhoi manylion i'r Gronfa am y darpariaethau disgwylidig y byddai gofyn i'r Gronfa eu gwneud bob blwyddyn er mwyn i'r Gronfa allu talu'r rhwymedigaethau pensiwn a fydd yn cronni o dan y cynllun. Y tro diwethaf y rhoddwyd cyngor felly oedd 31 Mawrth 1998. Mae'r cynllun yn gynllun â buddion wedi'u diffinio. Bydd taliadau pensiwn a wneir i'r cyn-gyflogai hwn yn cael eu talu o adnoddau arian y Gronfa, ac nid drwy'r JSS, nad oes unrhyw asedau ganddo. Er bod y pensiynwr yn cael ei daliadau pensiwn, nid yw'r Gronfa Goffa wedi ad-dalu gweinyddwr pensiwn PCSPS eto (sy'n gweithredu'r cynllun ar ran JSS) gan nad yw wedi gofyn am y cyllid eto. Nid yw cyflogeion newydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ymuno â'r JSS, ond yn hytrach yn ymuno â'r PCSPS. Yn ogystal, yn ystod 2007-08 cymerodd dau aelod staff ymddeoliad cynnar. Mae'r Gronfa Goffa yn talu cost ymddeoliad cynnar nes bod y bobl hynny'n cyrraedd 60 oed ac mae'r PCSPS yn talu cost y pensiwn wedyn.

6b. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Darpariaeth ar 1 Ebrill 2007	77	77
Darpariaeth ymddeoliad cynnar	54	-
Taliadau pensiwn a wnaed	(33)	-
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2008	98	77

7. Asedau sefydlog diriaethol

	Gwelliannau i Eiddo Prydles Fer £000	Offer TG £000	Gosodiadau Swyddfa £000	Cyfanswm £000
Cost ar 1 Ebrill 2007	2,073	2,077	734	4,884
Ychwanegiadau	-	115	-	115
Gwerthiannau	-	(665)	(676)	(1,341)
ar 31 Mawrth 2008	2,073	1,527	58	3,658
Dibrisiad ar 1 Ebrill 2007	1,339	1,828	731	3,898
Cost am y flwyddyn	181	97	2	280
Addasiad ar werthiant	-	(665)	(676)	(1,341)
ar 31 Mawrth 2008	1,520	1,260	57	2,837
Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2007	734	249	3	986
ar 31 Mawrth 2008	553	267	1	821

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerth yr asedau sefydlog ac yn fodlon nad oedd eu gwerth, ar 31 Mawrth 2008, yn llai na'u llyfrwerth net a ddangosir yn y cyfrifon. Ni ddaliwyd unrhyw asedau o dan brydlesi cyllid. Mae gwerth asedau sefydlog yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mewn adolygiad o werthoedd cost gyfredol asedau sefydlog, ar 31 Mawrth 2008, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth materol i werthoedd cost hanesyddol. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiad yn y cyfrifon hyn i adlewyrchu gwerthoedd cost gyfredol. Mae'r gwelliannau i eiddo prydles fer yn cynnwys costau addasu ac ailwampio yn safleoedd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cael eu dal o dan brydlesi gweithredol.

8. Dyledwyr

	2007-08 £000	2006-07 £000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	878	1,160
Blaensymiau staff	53	52
	931	1,212

Nid oedd unrhyw falansau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn. O'r symiau uchod, roedd £253,000 yn ddyledus gan gyrff llywodraeth ganolog a £67,000 gan awdurdodau lleol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 58 aelod staff flaensymiau cyflogres sy'n ddyledus (ar 31-3-07, roedd 62).

9. Buddsoddiadau

Symudiad balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol:

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Cost gyfredol ar 1 Ebrill 2007	660,257	796,414
Incwm a gafwyd gan y Loteri Genedlaethol	200,394	201,031
Cyllid a dynnwyd i lawr	(309,867)	(367,196)
Adeniliad buddsoddiad	15,396	37,933
Colled heb ei gwireddu ar fuddsoddiad	1,248	(7,925)
Cost gyfredol ar 31 Mawrth 2008	567,428	660,257

Nid oes unrhyw rwymedigaeth i drethiant ar enillion a wireddir gan y Gronfa Goffa. Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n buddsoddi'r arian hwn ac sy'n dirprwyo rheolaeth i'r Comisiynwyr dros Leihau'r Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu hadnillion at y balans sy'n cael ei ddal. Nid oes gan Ymddiriedolwyr y Gronfa Goffa unrhyw reolaeth ar bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisiau cyfrifyddu'n cynnwys gwybodaeth bellach am y mater hwn.

10. Credydwy'r symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Credydwy'r gweithredol	1,252	1,359
Credydwy'r eraill yn cynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol	332	349
Croniadau ac incwm gohiriedig	1,239	791
	2,823	2,499

Ni sicrhawyd unrhyw un o rwymedigaethau Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Gellir dadansoddi balansau credydwy'r cyfredol fel a ganlyn:

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog	222	365
Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol	73	54
Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus	-	-
Balansau allanol i lywodraeth	957	940
	1,252	1,359

11. Ymrwymadau grant

Ymrwymadau caled

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	679,416	699,096
Trosglwyddiadau o ymrwymadau meddal	294,330	332,574
Dad-ymrwymadau	(14,002)	(13,183)
Ymrwymadau a dalwyd	(299,377)	(339,071)
Cariwyd ymlaen ar 31 Mawrth	660,367	679,416

Ymrwymïadau meddal

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	399,710	459,206
Ymrwymïadau meddal a wnaed	283,973	285,425
Dad-ymrwymïadau meddal	(34,553)	(12,347)
Trosglwyddïadau i ymrwymïadau caled	(294,330)	(332,574)
Balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth	354,800	399,710

Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus i ymgeiswyr yn y cyfnodau canlynol:

Ymrwymïadau caled

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
mewn blwyddyn	290,347	329,517
mewn dwy i bum mlynedd	370,020	349,899
mewn mwy na phum mlynedd	-	-
	660,367	679,416

Mae'r balans ymrwymïad caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog	64,827	54,353
Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol	317,647	326,120
Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus	17,583	13,588
Balansau allanol i lywodraeth	260,310	285,355
	660,367	679,416

12. Ymrwymïadau

Mae ymrwymïadau blynyddol Cronfa Dreftadaeth y Loteri o dan brydlesi gweithredol fel a ganlyn:

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Eiddo prydles fer		
A ddaw i ben ymhen blwyddyn	54	35
A ddaw i ben ym mlynnyddoedd dau i bump	1,166	1,149
A ddaw i ben wedyn	154	145
	1,374	1,329
Prydlesi gweithredol eraill		
A ddaw i ben ymhen blwyddyn	11	3
A ddaw i ben ym mlynnyddoedd dau i bump	12	19
A ddaw i ben wedyn	-	-
	23	22

Nid oes gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri unrhyw ymrwymïadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymïadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

13. Nodiadau i'r datganiad llif arian**a) Cysoni diffyg gweithredol i all-lif arian o weithgareddau gweithredu**

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Diffyg gweithredol	(83,945)	(108,018)
Heb: log sy'n dderbyniadwy	(936)	(493)
Ychwanegu'n ôl eitemau nad ydynt yn arian:		
– dibrisiad	280	337
– colled ar werthu asedau sefydlog	-	-
– cynnydd mewn darpariaethau eraill	21	-
– symudiad yng nghronfa wrth gefn ailbriso	1,248	-
– gostyngiad yng nghronfa wrth gefn ymrwymo grantiau	(19,049)	(19,680)
– gostyngiad yn y balans yn y Gronfa Ddosbarthu	92,829	136,157
Gostyngiad mewn dyledwyr di-log	323	46
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr di-gyfalaf	324	(449)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu	(8,905)	(7,900)

b) Gwariant cyfalaf

	2007-08 £000	2006-07 £000
Taliadau i gael asedau sefydlog diriaethol	115	136

c) Dadansoddiad o newidiadau mewn cyllid net

	1 Ebrill 2007 £000	Llif arian £000	31 Mawrth 2008 £000
Arian yn y banc	8,137	(8,126)	11

14. Trafodion parti perthynol

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("yr Adran"). Ystyrir bod yr adran hon yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cael trafodion materol amrywiol, heblaw dyfarniadau grantiau, â'r Adran ac endidau eraill yr ystyrir mai'r Adran hon sy'n eu noddi, sef y Gronfa Loteri Fawr, English Heritage a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Yn ogystal, mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cael nifer o drafodion materol ag adrannau Llywodraeth eraill. Bu'r trafodion hyn â'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoliadol ac endidau sy'n ystyried mai'r Trysorlys (sef Swyddfa Fasnach y Llywodraeth) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (sef Cadw) yw eu rhiant-adran.

Mae Liz Forgan, cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, yn gadeirydd ymddiriedolaeth sy'n berchen ar grŵp papur newydd. Gwariodd y Gronfa Goffa £18,912 yn uniongyrchol gyda'r sefydliad hwn neu drwy drydydd parti. Bu Chris Baines, aelod o banel arbenigol yr Ymddiriedolwyr, yn darparu gwasanaethau monitro project i CDL ar ddau ddyfarniad grant am gost o £823.

Roedd gan ddau aelod staff fuddiannau mewn cyrff y gwnaed grantiau iddynt gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn y flwyddyn. Y cyrff hyn oedd the Royal Botanic Gardens yng Nghaeredin a the Wildfowl & Wetlands Trust. Yn ogystal, roedd gan Alan Baxter, aelod o banel arbenigol a benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr i'w cynghori ar geisiadau grant mawr, fudd mewn grant i'r Black Cultural Archives fod

gan ei gwmni contract â'r ymgeisydd. Tra bo'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod tebygolrwydd o fudd ariannol, maent yn fodlon na chymerodd ran yn ystyriaethau'r panel arbenigol ar y project.

Fel y nodwyd isod, roedd gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol fuddiannau mewn cyrff a gafodd grantiau Loteri gan y Bwrdd. Yn yr un modd, roedd gan aelodau'r pwyllgorau gwlad a rhanbarth fuddiannau mewn cyrff a gafodd grantiau Loteri gan eu pwyllgor. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon nad oedd unrhyw bosibilrwydd o elw ariannol personol i ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgor na staff mewn unrhyw achos felly.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Cyngor Sir East Sussex: grant o £79,800 a phenderfyniad cam un o £1,920,000 – Weald Forest Ridge. Mae Doug Hulyer ar Fwrdd Natural England, sy'n rhoi cyllid partneriaeth. Yn ogystal, mae gan ddau aelod o'r pwyllgor, Tony Hams a Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England.

Y Comisiwn Coedwigaeth: grant o £150,000 a phenderfyniad cam un o £1,846,000 – Wyre Forest. Mae Doug Hulyer ar Fwrdd Natural England, sy'n rhoi cyllid partneriaeth. Yn ogystal, mae gan ddau aelod o'r pwyllgor, Tony Hams a Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England.

Amgueddfeydd Tyne & Wear: penderfyniad cam un o £1,146,000 – Imagine A Nation.

Cyflogir Mike Phillips gan y Tate Gallery, un o sefydliadau partner i'r project. Yn ogystal, mae gan aelod o'r pwyllgor, Shreela Ghosh, gysylltiadau â'r lleoliadau ar gyfer yr arddangosfa.

Ymddiriedolaeth Natur Bedfordshire, Cambridgeshire, Northamptonshire a Peterborough: grant o £67,000 a phenderfyniad cam un o £8,867,000 – Restoring our Fenland Heritage.

Mae Doug Hulyer ar Fwrdd Natural England, sy'n bartner yn y project. Yn ogystal, mae gan ddau aelod o'r pwyllgor, Tony Hams a Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England.

The Wildfowl & Wetlands Trust: grant o £2,960,000 – Castle Espie.

Roedd Doug Hulyer yn gyn Gyfarwyddwr Rhaglenni Cadwraeth gyda'r ymgeisydd.

Bat Conservation Trust: grant o £596,000 – England Count Bat.

Mae Doug Hulyer ar Fwrdd Natural England, sy'n rhoi cyllid partneriaeth. Yn ogystal, mae gan ddau aelod o'r pwyllgor, Tony Hams a Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England.

British Waterways: grant o £117,000 a phenderfyniad cam un o £1,651,000 – Trent Vale.

Mae Doug Hulyer ar Fwrdd Natural England, sy'n rhoi cyllid partneriaeth. Yn ogystal, mae gan ddau aelod o'r pwyllgor, Tony Hams a Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England.

The Holburne Museum of Art: grant o £4,354,000 –project datblygu. Roedd Christopher Woodward yn gyn Gyfarwyddwr yr Amgueddfa.

The Great Dixter Charitable Trust: dyfarniad o £306,500 a phenderfyniad cam un o £3,797,000 –project cadwraeth.

Mae Christopher Woodward yn Gyfarwyddwr y Museum of Garden History sydd â pherthynas waith â'r ymgeisydd. Mae Matthew Saunders yn ffrind i un o ymddiriedolwyr yr ymgeisydd.

Society of Antiquaries yn Llundain: dyfarniad o £297,000 – Arddangosfa Deithiol Making History. Mae Matthew Saunders yn Gymrawd y Gymdeithas.

The Sherwood Forest Trust: dyfarniad o £500,000 – Towards the Best Heritage Forest in the World. Mae Doug Hulyer ar Fwrdd Natural England, sy'n bartner yn y project. Yn ogystal, mae gan ddau aelod o'r pwyllgor, Tony Hams a Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England.

Cyngor Sir Dorset: grant o £159,500 – South Dorset Ridgeway.

Mae Doug Hulyer ar Fwrdd Natural England, sy'n rhoi cyllid partneriaeth. Yn ogystal, mae gan ddau aelod o'r pwyllgor, Tony Hams a Christopher Pennell, gysylltiadau â Natural England.

Aelodau'r pwyllgor

Autograph ABP: grant o £660,500 – Archive & Research Centre.

Mae gan Shreela Ghosh gysylltiadau â sefydliad sydd wedi bod mewn partneriaeth gyda'r ymgeisydd ar brojectau eraill.

Bowes Museum Trust: grant o £3,230,000 – Access to Collections.

Mae Derek Foster yn Gadeirydd y Bowes Museum Trust.

Bluecoat Arts Centre: grant o £650,000.

Mae Jennifer Latto yn gweithio yn North West Development Agency, sy'n rhoi cyllid partneriaeth.

Wigan Leisure & Culture Trust: grant o £500,500 – Wigan History Shop.

Mae Ian Bancroft yn Gyfarwyddwr Gweithredol Wigan Leisure and Culture Trust.

Royal Society for the Protection of Birds: grant o £180,500 a phenderfyniad cam un o £1,579,000 – Cliffe Pools. Mae Chris Corrigan yn gweithio i'r ymgeisydd.

Mary Rose Trust: dau grant o £1,907,000 a £1,896,000 a phenderfyniad cam un o £19,163,000 – Mary Rose Hull Conservation a'r Mary Rose Museum.

Roedd partner Jane Weeks ar y bwrdd ymgynghorol i'r ymgeisydd.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Exmoor: grant o £603,500 – West Somerset Mineral Railway. Roedd David Sekers yn ymwneud â'r gweithgarwch ymgynghori ar gyfer y project.

Dorset Natural History & Archaeological Society: grant o £179,500 – Romney Portraits. Mae Sam Hunt a David Sekers yn ymddiriedolwyr i'r ymgeisydd.

Cyngor Sir Caerdydd: grant o £3,123,000 – Bute Park Restoration. Mae Lindsay Cuddy yn gweithio i'r ymgeisydd.

Dean & Chapter of York: grant o £746,000 a phenderfyniad cam un o £9,254,000 – York Minster Revealed. Mae Louise Hampson yn gweithio i'r ymgeisydd.

Ripon Cathedral: grant o £514,000 – Discovering Ripon Cathedral. Roedd John Watson wedi bod ar y pwyllgor codi arian.

Sheffield Industrial Museums Trust: grant o £595,000 – Hawley Collection. Mae John Hamshire yn gweithio i'r ymgeisydd.

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Wigan: grant o £466,250 (elfen CDL) – Mesnes Park. Mae Ian Bancroft yn Gyfarwyddwr Gweithredol Wigan Leisure and Culture Trust.

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Rotherham: grant o £1,129,500 (elfen CDL) – Clifton Park. Mae Ken Wyatt yn aelod o'r cyngor.

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Bradford: grant o £801,500 (elfen CDL) – Roberts Park. Roedd David Kennedy yn gyfarwyddwr i'r cyngor.

15. Offerynnau ariannol

Mae datgeliad llawn o dan FRS 13, Deilliannau ac Offerynnau Ariannol eraill, yn Sylwadau'r Rheolwyr.

16. Colledion a thaliadau arbennig

Rhwng Awst 2003 a Thachwedd 2005, gwnaeth CDL daliadau o £1,000,626 i English Heritage fel grant tuag at waith a wnaed wrth ddatblygu canolfan ymwelwyr yn Stonehenge. Tra'i bod yn bosibl y gellid defnyddio'r gwaith datblygu a gefnogir gan y taliadau hyn mewn cynllun yn y dyfodol, barnwyd ei bod yn ddoeth dileu'r swm hwn. Roedd hyn o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch mynediad at Stonehenge ar ôl canslo cynllun ffordd arfaethedig yn yr ardal.

Mae CDL yn cyfrannu cyllid at y rhaglen Arian i Bawb a weinyddir gan y Gronfa Loteri Fawr. Yn y cyfrifon ar gyfer 2004-05, fe wnaethom adrodd y gallai'r rhaglen fod wedi bod yn agored i dwyll gan ymgeiswyr a oedd wedi gwneud mwy nag un cais am grantiau bychain. Tra bo angen cwblhau ymchwiliadau, rydym wedi'n cynghori gan y Gronfa Loteri Fawr i ddileu £227,202 ar ddyfarniadau lle nad oes tystiolaeth o unrhyw fudd treftadaeth.

17. Cronfa wrth gefn ailbrisio

	2007-08 £'000	2006-07 £'000
Ar 1 Ebrill	-	-
Symudiad yn y flwyddyn	1,248	-
Ar 31 Mawrth	1,248	-

Mae'r gronfa wrth gefn yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng llyfrwerth a gwerth marchnad y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (gweler nodyn 9). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng llyfrwerth a gwerth marchnad asedau sefydlog (gweler nodyn 7) o bwys.

CYFARWYDDIADAU POLISI

a. Ychwanegolrwydd

Ynghyd â'r dosbarthwyr Loteri eraill yn Lloegr a'r DU, mae CDL wedi mabwysiadu'r diffiniad canlynol o sut y mae cyllid y loteri yn eistedd ochr yn ochr â gwariant cyhoeddus arall:

Mae cyllid y Loteri'n wahanol i gyllid y Llywodraeth ac mae'n ychwanegu gwerth. Er nad yw'n cymryd lle gwariant y Trysorlys, pan fo'n briodol mae'n cyflenwi rhaglenni, polisïau a chyllid y Llywodraeth ac eraill.

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 yn mynnu bod pob dosbarthwr Loteri yn llunio adroddiad sy'n nodi polisi ac arfer y corff mewn perthynas â'r egwyddor y dylid defnyddio enillion y Loteri Genedlaethol i ariannu projectau, neu agweddau ar brojectau, y mae'n annhebygol y byddai cyllid yn cael ei ryddhau ar eu cyfer gan adran Lywodraeth, Gweinidogion Yr Alban, adran Gogledd Iwerddon, neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Caiff pob dyfarniad a wneir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ei ystyried yn ofalus mewn perthynas â'r meini prawf hyn. Mae CDL yn cefnogi sector sy'n cynnwys ychydig gyfrifoldebau statudol y darperir cyllid ar eu cyfer gan adrannau Llywodraeth yn unrhyw un o'r gwledydd. Ond yn yr achosion hynny lle gofynnir am gyllid gan CDL i gyflenwi rhaglenni a mentrau sydd eisoes yn bodoli, neu lle gofynnir inni ariannu sefydliadau a ariennir yn genedlaethol, rydym yn ofalus i sicrhau ein hunain, drwy gymryd cyngor arbenigol, fod ein dyfarniadau'n ychwanegu gwerth at gyllid y llywodraeth a chyllid arall, ac yn ei gyflenwi.

b. Lles y cyhoedd

Yr angen i barhau i ddosbarthu arian ar gyfer projectau sy'n hyrwyddo'r lles y cyhoedd (gan gynnwys ehangu mynediad cyhoeddus) neu ddibenion elusennol, ac na'u bwriedir yn bennaf ar gyfer elw preifat.

Mae ein hasesiad o'r holl geisiadau yn gofyn cwestiynau am y buddion a gyflwynir i gyhoedd eang drwy'r cyllid y gallem ei gynnig. Mae dadansoddiad o'r dyfarniadau a wnaed yn 2007-08 yn dangos bod tua 46% o'n cyllid yn y flwyddyn honno wedi'i ddyfarnu i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol; 42% i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys cynlluniau awdurdodau lleol, a 12% i sefydliadau eglwys. Ymhlith derbynwyr grant CDL (ac eithrio sefydliadau eglwys), roedd dros 40% yn elusennau cofrestredig. Mae dyfarniadau a wnawn a allai roi budd i berchenogion preifat yn parhau i ffurfio canran fach iawn o'r cyfanswm, ac yn gyfyngedig i gynlluniau ardal lle mai'r prif dderbynnnydd grant yw corff cyhoeddus, a grantiau bach o dan ein rhaglen Eich Treftadaeth ar gyfer darpariaeth addysgol a mynediad.

c. Ymdrin ag ystod gyflawn y dreftadaeth genedlaethol

Yr angen i sicrhau bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri'n ystyried ceisiadau sy'n berthnasol i'r ystod gyflawn o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth genedlaethol, gan ystyried:

- eu hasesiad o anghenion y dreftadaeth genedlaethol a'u blaenoriaethau i fynd i'r afael â hwy;
- yr angen i sicrhau bod cyllid o fewn cyrraedd pob rhan o'r DU; a'r
- cwmipas i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol ar yr un pryd â chreu buddion treftadaeth.

Mae ein rhaglenni grant yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion ffisegol y dreftadaeth yn ogystal â'r angen i ehangu'r gynulleidfa ar gyfer dysgu am dreftadaeth a chymryd rhan ynddi ble bynnag y caiff ei gwerthfawrogi.

Yn 2007-08, fe wnaeth ein timau datblygu barhau eu gwaith mewn meysydd blaenoriaeth. Derbyniwyd 661 o geisiadau am grantiau o dan £1m yn y meysydd hyn ac fe wnaethom 480 o ddyfarniadau. Roedd cyfradd lwyddiant ceisiadau a dderbyniodd gyngor cyn gwneud cais yn sylweddol uwch nag ar gyfer ceisiadau nad oedd wedi derbyn cyngor cyn gwneud cais.

Gellir gweld effeithiau manteisiol gwariant CDL ar y dreftadaeth ymhob rhan o'r DU, ac mae tua 41% o holl gyllid CDL wedi cael ei ymrwymo mewn meysydd sydd yn y 25% uchaf o ardaloedd mwyaf amddifadus.

d. Mynediad

Yr angen i hyrwyddo mynediad, i bobl o bob rhan o'r gymdeithas, i wrthrychau a chasgliadau treftadaeth, i'r dreftadaeth adeiledig a naturiol ac i brojectau sy'n gysylltiedig â hanes, hanes naturiol a thirwedd y Deyrnas Unedig.

Mae rhoi mynediad i'n treftadaeth i bobl o bob rhan o gymdeithas wedi bod yn gyflawniad allweddol 'Ehangu gorwelion treftadaeth', ein Cynllun Strategol o 2002 i 2007. Bob blwyddyn, rydym wedi cyllido cannoedd o brojectau, sydd nid yn unig yn ei gwneud yn haws mynd i, ac o amgylch, safleoedd, adeiladau, amgueddfeydd a thirweddau treftadaeth, ond hefyd, helpu pobl ddeall a gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei weld a'i brofi. Rydyn ni hefyd wedi cyllido llawer o brojectau sy'n galluogi i grwpiau ddarganfod eu treftadaeth eu hunain a gweithio gyda sefydliadau treftadaeth i weld yr hanesion hyn yn cael eu cynrychioli'n llawnach mewn tai hanesyddol, amgueddfeydd a safleoedd eraill. Yn 2007 roedd gennym fenter arbennig i annog ceisiadau ar gyfer projectau i nodi 200 mlynedd ers i'r Senedd ddiddymu'r fasnach gaethweision; fe wnaethom dros 100 o ddyfarniadau, gyda'r mwyafrif i grwpiau cymunedol lleiafrifol ethnig a du, yn cynnwys *Leeds West Indian Centre Charitable Trust*, *Sparkbrook Caribbean and African Women's Development Initiative*, a *Manchester African & Caribbean Voices Association*.

e. Addysg

Yr angen i hyrwyddo gwybodaeth plant a phobl ifanc am y dreftadaeth a'u diddordeb ynddi.

Mae mwyafrif helaeth ein projectau yn rhoi budd i blant a phobl ifanc gan fod sefydliadau yn cydnabod bod arnynt angen buddsoddi yn y dyfodol drwy helpu plant a phobl ifanc ddysgu am eu treftadaeth, a'i werthfawrogi, a hynny yn yr ysgol ac yn eu hamser rhydd. Eleni, rydym wedi cyllido'r amrywiaeth eang arferol o brojectau, yn cynnwys gwell cyfleusterau a rhaglenni mewn safleoedd treftadaeth o bob math, projectau sy'n dod â sefydliadau treftadaeth ac ysgolion ynghyd i helpu plant i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth; a phrojectau hanes lleol lle mae pobl ifanc yn gweithio gyda phobl hŷn i greu cofnod o'r dreftadaeth maent yn ei rhannu. Fe wnaethom gwblhau gwerthusiad pedair blynedd o'n rhaglen Gwreiddiau Ifanc, sydd wedi gwneud tua 850 o ddyfarniadau bellach, gyda 145 ohonynt yn 2007-08 i gyfanswm gwerth £3.2 miliwn. Mae'r gwerthusiad yn dangos yn glir bod projectau wedi annog pobl ifanc i ddysgu mwy am eu treftadaeth a chysylltu â phobl o genedlaethau hŷn, a datblygu sgiliau a magu hyder ar yr un pryd.

f. Datblygu cynaliadwy

Yr angen i ddatblygu amcanion datblygu cynaliadwy.

Ar hyn o bryd, rydym yn gofyn i'n hymgeiswyr ddweud wrthym ba effaith fydd gan eu project ar yr amgylchedd. Fel rhan o ddatblygiad ein cynllun strategol newydd, rydym wedi parhau ag ymchwil ac ymgynghori i gryfhau ein canolbwynt ar effaith amgylcheddol yn ein proses asesu..

g. Terfyn amser

Yr angen i gyllid gael ei ddefnyddio gyda phrojectau sydd at ddiben penodol â therfyn amser.

Mae'r projectau a gefnogwn bob amser â therfyn amser ac yn benodol. Rydym yn parhau'n ariannwr gwaith cyfalaf yn bennaf ac yn ymrwymo i brojectau mewn cyfnod cynnar, sy'n golygu ein bod yn ymrwymo ein hunain i wariant dros sawl blwyddyn. Rydym yn cyfyngu ein cymorth i 5 mlynedd ar y mwyafrif ar gyfer projectau sy'n cynnwys gweithgareddau. Yn ein rhaglenni Menter Treftadaeth Treflun a Phartneriaeth Tirweddau, rydym yn cefnogi projectau lle mae'n rhaid ymrwymo'r cyllid ymhen tair blynedd, gyda'r nod o'i wario ymhen pum mlynedd.

h. Hyfywedd

- yr angen i ymgeiswyr ddangos hyfywedd ariannol project ar gyfer cyfnod y grant;

- os ceisir cyllid cyfalaf neu gostau sefydlu, yr angen am gynllun busnes clir y tu hwnt i gyfnod y grant sy'n ymgorffori darpariaeth ar gyfer costau rhedeg a chynnal a chadw cysylltiedig;
- yr angen i ystyried a oes cyllid yn debygol o fod ar gael i dalu unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl i gyfnod dyfarniad y Loteri ddod i ben.

Gofynnwn i ymgeiswyr roi gwybodaeth inni sy'n arddangos hyfywedd ariannol eu project, wedi'i ddadansoddi'n gostau cyfalaf, gweithgarwch ac eraill, ac sy'n dangos pa gyfraniad y mae ein hymgeiswyr yn cynnig ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion eraill. Rydym yn sicrhau bod arweiniad ar gael am sut i lunio Cynllun Busnes. Rydym hefyd yn gofyn i ymgeiswyr ddangos y byddant yn gallu parhau i gyflwyno buddion y project drwy dalu costau rhedeg disgwylidig yn y dyfodol a gofalu am yr eitem neu eiddo treftadaeth yn y tymor hwy drwy gynnal a gwarchod y buddsoddiad ymhellach. Yn ei hadroddiad yn 2007, daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad bod prosesau cadarn CDL a'i hymagwedd drwyadl at asesu ceisiadau wedi arwain at brojectau gwell, mwy cynaliadwy.

i. Cyllid partneriaeth

Yr angen i brojectau gael eu cefnogi gan elfen o gyllid partneriaeth, a/neu gyfraniadau o fath arall, o ffynonellau eraill.

Mae'n rhaid i bob dyfarniad a wnawn ddilyn yr arweiniad yn ein ffurflenni cais sy'n mynnu ar bartneriaeth naill ai mewn arian neu o fath arall i gyfateb i gyfraniad CDL. Gofynnwn fod cyllid o'r math hwn ar wahanol lefelau ar gyfer grantiau o wahanol feintiau. Ar gyfer ein cynlluniau grant llai, Eich Treftadaeth neu Wreiddiau Ifanc, caniatawn gyfraniadau o fath arall neu gyfraniadau amser gwirfoddolwyr os nad yw ymgeiswyr yn gallu darparu swm arian yn rhan o'u cyllid. Mae'r ffaith bod cyllid y loteri ar gael wedi bod yn ffactor allweddol wrth gyflawni buddion projectau. Dywedodd mwyafrif llethol yr ymgeiswyr blaenorol a holwyd naill ai na fyddai eu project wedi digwydd heb grant y Gronfa, neu y byddent wedi ceisio dod o hyd i gyllid arall neu leihau cwmphas eu project hebdo.

j. Mewn partneriaeth

Y dymuniad i weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, os yw hyn yn ffordd effeithiol o gyflawni elfennau o'u strategaeth.

Parhawn i gefnogi Arian i Bawb mewn partneriaeth â Dosbarthwyr Loteri eraill; mae cyfrifoldeb gweithredol am y cynllun hwn yn parhau gyda'r Gronfa Loteri Fawr. Drwy Fforwm y Loteri ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, rydym yn parhau i weithio gyda dosbarthwyr loteri eraill ar fentrau ar y cyd a gwell cydlyn. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom glustnodi cyllideb o £30m i raglen ar y cyd Parciau i Bobl (gyda'r Gronfa Loteri Fawr). Buom yn asesu ac, mewn cydweithrediad â'r Gronfa Loteri Fawr, yn pennu ceisiadau i'r ddau gylch cynnig cyntaf ar gyfer rhaglen ddiwygiedig Parciau i Bobl, yr ydym yn disgwyl ei hariannu ar y cyd hyd nes mis Mawrth 2009. Mae'r galw am y rhaglen hon yn uchel iawn, gyda 39 o geisiadau a 19 o ddyfarniadau'n cael eu gwneud yn y flwyddyn.

Mae gennym drefniadau partneriaeth ar waith ar gyfer ein Cynllun Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn Lloegr. Yn ystod 2007-08, daeth y trefniant i ben ar gyfer staff gan yr Asiantaeth Ieuentid Genedlaethol a rhai o'i chyrff cywerth yn y gwledydd eraill i'n helpu i gyflawni ein rhaglen Gwreiddiau Ifanc, ond rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod arfer da yn y rhaglen wedi cael ei sefydlu.

k. Cymell ceisiadau

Yr angen i sicrhau bod pwerau Cronfa Dreftadaeth y Loteri i gymell ceisiadau'n cael eu defnyddio i gyflawni amcanion strategol.

Anaml y defnyddiwn ein pwerau i gymell ceisiadau penodol gan fod ein rhaglenni grant yn denu ystod eang o geisiadau, y mae llawer ohonynt yn bodloni ein hamcanion strategol. Defnyddiwn ein timau datblygu i geisio annog ceisiadau o rannau o'r DU na chafwyd llawer o geisiadau ganddynt hyd yma, ac adroddwn am eu gwaith yn adran c. uchod.

I. Penderfyniadau

Yr angen am wybodaeth ddigonol i wneud penderfyniadau am bob cais, yn cynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo angen.

Ceisiwn wybodaeth gan ymgeiswyr am y graddau y mae'r projectau a gyflwynant yn bodloni ein blaenoriaethau strategol, ynghyd â gwybodaeth bellach am y ffordd y caiff y project ei gyflwyno er mwyn i risgiau a chyfleoedd gael eu cydbwysu'n llawn. Rydym yn chwilio o hyd am ffyrdd i symleiddio'r cwestiynau a ofynnwn a chwtogi ar yr wybodaeth y mae ei hangen arnom. Ceisiwn gyngor arbenigol annibynnol ar agweddau allweddol ar lawer o geisiadau.

Monitro

Mae monitro projectau sydd wedi cychwyn yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n gwaith. Yn ystod y flwyddyn, mae ymdrechion wedi cynnal perfformiad y llynedd yn gwneud taliadau grant ymhen 5 niwrnod ar gyfartaledd, ac rydym hefyd wedi ceisio lleihau'r cyllid sydd gennym yn y Gronfa Ddosbarthu: o ganlyniad mae ein balans wedi gostwng £93m, ac mae bellach yn £567m. Mae nifer yr achosion sy'n fyw ar hyn o bryd wedi codi yn ystod y flwyddyn i ryw 4,016, ond o'r rhain dynodir bod 2,824 yn risg isel ac mae'r ymgeiswyr eu hunain yn eu monitro gan adrodd i'n staff. Rydym wedi parhau i arfer rheolaeth eleni ar ein gwariant ar fonitro ac i ystyried mwy ar y risgiau sy'n newid yn ystod oes project.

Monitro ethnigrwydd dyfarniadau grant

Gofynnwyd i'r ymgeiswyr a gafodd ddyfarniad yn 2007-08 (ac eithrio Arian i Bawb a Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli):

- nodi'r prif grwpiau ethnig a gynrychiolir yn eich sefydliad; a
- nodi tarddiad y rhan fwyaf o bobl a fydd yn elwa ar eich project.

Ni ddefnyddir yr wybodaeth ar gyfer asesiad ac, fel yn y gorffennol, dewisodd tua dwy ran o dair o ymgeiswyr ateb y cwestiynau. Dywedodd 24% o'r ymatebwyr fod o leiaf un grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi'i gynrychioli yn eu sefydliad. Dywedodd 32% o'r ymatebwyr bod o leiaf un grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fuddiolwr disgwylidig eu project.

Gwerthuso

Gwerthusir y rhaglen yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2005, sy'n ymdrin â'n rhaglenni generig a'r mentrau a dargedir. Yn ystod 2007 cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad o'i hadolygiad o'n dull gwerthuso i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, a chadarnhaodd bod y fframwaith yn dilyn arweiniad gan Swyddfa'r Cabinet, y Trysorlys a'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn ystod 2007-08 hefyd, cafodd y fframwaith gwerthuso ei adolygu gan gydweithwyr a chyhoeddwyd papur yn egluro'r drefn a'n profiad yn ystod dwy flynedd gyntaf ei weithredu yn y cyfnodolyn Cultural Trends. Yn Awst 2007, cynhyrchwyd crynodeb o'r canlyniadau o waith gwerthuso i effeithiau'r rhaglenni Grantiau Treftadaeth ac Eich Treftadaeth. O ran y mentrau a dargedir, cynhaliwyd y gwaith mwyaf ar gyfer y Fenter Treftadaeth Treflun, lle cwblhawyd gwerthusiad interim o'r rhaglen ddeng mlynedd o'i dechrau.

PERFFORMIAD CORFFORAETHOL

Targedau'r Cynllun Strategol - chwe blynedd hyd at 31 Mawrth 2008

	31 Mawrth 2008	31 Mawrth 2007	31 Mawrth 2006	31 Mawrth 2005	31 Mawrth 2004	31 Mawrth 2003
1. Bydd 50% o gyfanswm gwerth y dyfarniadau yn mynd i grantiau o dan £1 m.	44.0%	40.8%	39.7%	36.6%	37.4%	35.9%
2. Ni fydd mwy na 25% o gyfanswm gwerth y dyfarniadau yn mynd i grantiau o £5m a mwy.	21.7%	25.6%	28.7%	28.8%	26.3%	33%
3. Cynnal lefel gyfredol o wariant ar Arian i Bawb (adroddwyd ffigur blynnyddol)	£4.9m	£4.6m	£6.3m (yn cynnwys Ffrynt Cartref a micro grantiau)	£5.4m	£5.0m	£4.9m
4. Bydd canran yr ymgeiswyr cyntaf i rai rhaglenni yn fwy na: Arian i Bawb – 50%; Eich treftadaeth – 30%	46% 80%	47% 81%	66% 82%	49% 84%	62% 87%	62% 89%
5. Cyfradd lwyddiant ymgeiswyr cyntaf yn gyfartal ag ymgeiswyr eraill neu'n rhagori arnynt: Arian i Bawb Eich treftadaeth	1af Arall 60% 62% 79% 81%	1af Arall 60% 64% 80% 81%	1af Arall 78% 65% 80% 80%	1af Arall 60% 61% 80% 80%	1af Arall 58% 57% 83% 89%	1af Arall 51% 51% 86% 92%
6. Ceisiadau o ardaloedd blaenoriaeth yn cyrraedd cyfartaledd rhanbarth y pen yn ystod oes y Cynllun Strategol.	Heb ei fodloni gan unrhyw ranbarth na gwlad. Gorau – G Ddn (wedi bodloni mewn 50% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – G On, Gl, Yr Alban, De On a Swydd Efrog a Humberside (wedi bodloni mewn un ardal flaenoriaeth yn unig) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb}	Heb ei fodloni gan unrhyw ranbarth na gwlad. Gorau – G Ddn (wedi bodloni mewn 83% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – G On a'r Alban (wedi bodloni mewn un ardal flaenoriaeth yn unig) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}	Heb ei fodloni gan unrhyw ranbarth na gwlad. Gorau – Gn Canolbarth Lloegr (wedi bodloni mewn 80% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – Dwyrain Lloegr, Gl a'r Alban (wedi bodloni mewn un ardal flaenoriaeth yn unig) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}	Heb ei fodloni gan unrhyw ranbarth na gwlad. Gorau – G Ddn a Gn Canolbarth Lloegr (wedi bodloni mewn 67% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – Gl, Yr Alban, Llundain a Chymru (wedi bodloni mewn un ardal flaenoriaeth) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}	Heb ei fodloni gan unrhyw ranbarth na gwlad. Gorau – G Ddn a Gn Canolbarth Lloegr (wedi bodloni mewn 83% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – Gl, D Ddn, Yr Alban a Chymru (wedi bodloni mewn un ardal flaenoriaeth) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}	Heb ei fodloni gan unrhyw ranbarth na gwlad. Gorau – G Ddn a Gn Canolbarth Lloegr (wedi bodloni mewn 83% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – Gl, D Ddn, Yr Alban a Chymru (wedi bodloni mewn un ardal flaenoriaeth) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}

7. Cyfradd lwyddiant mewn ardaloedd blaenoriaeth yn gyfartal â'r gyfradd mewn ardaloedd eraill yn y DU neu'n rhagori arni.	G Ddn, Cymru a Gn Canolbarth Lloegr wedi'i fodloni Gwaethaf – Gogledd Iwerddon (heb fodloni mewn unrhyw ardal flaenoriaeth) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb}	G Ddn a Gn Canolbarth Lloegr wedi'i fodloni Gwaethaf – De Orllewin (wedi bodloni mewn un ardal flaenoriaeth yn unig) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}	Gn Canolbarth Lloegr wedi'i fodloni Gwaethaf – Llundain, Gl, De On a Chymru (wedi bodloni mewn dwy ardal flaenoriaeth yn unig) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}	Gn Canolbarth Lloegr wedi'i fodloni Gwaethaf – Gl a Chymru (wedi bodloni mewn un ardal flaenoriaeth) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}	Heb ei fodloni gan unrhyw ranbarth na gwlad. Gorau – Llundain (wedi bodloni mewn 80% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – De On a'r Alban (wedi bodloni mewn 0% o ardaloedd flaenoriaeth) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}	Heb ei fodloni gan unrhyw ranbarth na gwlad. Gorau – Gn Canolbarth Lloegr (wedi bodloni mewn 67% o ardaloedd blaenoriaeth). Gwaethaf – De On (heb fodloni mewn unrhyw ardal flaenoriaeth) {Dim data ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Lleol}
8. Mwy o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau a gynhyrchwyd gan CDL am faterion treftadaeth: rhanbarthol a chenedlaethol.	Wedi bodloni - Mae ein lefelau cyfartalog o sylw yn y cyfryngau wedi cynyddu ers 2002 a chadwyd y gogwydd cadarnhaol - Mae mwy o bwyslais ar sylw mewn erthyglau a themâu/materion – fel y Coffâd yn 2007 o ddiddymu'r fasnach gaethweision ar longau Prydeinig, a'n gwaith ar dreftadaeth a hunaniaeth – wedi helpu i wella ein heiriolaeth yn y cyfryngau dros y cyfnod cynllunio chwe blynedd.					
9. Gwell ymwybyddiaeth a chefnogaeth am dreftadaeth ymhlith arweinwyr barn.	Wedi bodloni Adroddodd yr archwiliad mwyaf diweddar o'n henw: - Fwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhai sy'n ffurfio barn treftadaeth (62% yn 2006 o gymharu â 21% yn 2002) - Tuedd gadarnhaol debyg ymhlith arweinwyr barn cyffredinol Mae canfyddiadau'n nodi: - Bod enw da CDL wedi 'gwella'n sylweddol dros amser' (o 45% enw 'da' yn 2002 i 66% yn 2006) - Bod CDL yn cael ei hystyried bellach yn 'hyrwyddwr treftadaeth credadwy a gwerthfawr' Yn ystod 2007 fe wnaethom ymgynghori â'r rhanddeiliaid a rhoi gwybod iddynt am fanylion ein Strategaeth, a'n logo a'n hunaniaeth gorfforaethol newydd arfaethedig. Derbyniwyd y rhain yn dda. Dros y cyfnod cynllunio chwe blynedd, fe wnaethom wella'r wybodaeth a roddir i gynrychiolwyr etholedig drwy ymweliadau, llythyrau, digwyddiadau a bwletinâu a luniwyd i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y defnyddir ein harian. Mae hyn wedi sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig yn gyfarwydd â'n gwaith a gwaith y rhai sy'n derbyn ein grantiau. Fe wnaethom ddatblygu ymhellach ein rhaglen o gysylltu â rhai sy'n ffurfio barn a chyflwyno Bwletin Electronig wedi'i dargedu. Derbyniwyd hyn yn dda, gyda dim ond nifer isel yn dewis 'rhoi'r gorau i danysgrifio'.					
10. Cyflwyno tri digwyddiad cyhoeddus ar faterion treftadaeth.	Wedi bodloni Rydym wedi cyflwyno tri digwyddiad cyhoeddus neu ragor y flwyddyn ar faterion treftadaeth ar draws y cyfnod cynllunio chwe blynedd. Yn 2007, roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau yn Thames Gateway Forum, yn cynnwys llyfryn a fforwm gwe rhyngweithiol i'r cyhoedd; y gynhadledd treftadaeth a hunaniaeth 'Digging Deeper' yng Ngogledd Iwerddon a'r adroddiad arno yn dilyn hynny; a gwaith parhaus yng Nghymru o gwmpas 'Diwrnod Hunaniaeth'. Fe wnaethom hefyd gynnal cystadleuaeth i'r cyhoedd – 'Postcards from the Park' – gan weithio gyda Greenspace a'r Gronfa Loteri Fawr, i amlygu cyllid ar gyfer parciau. Mae partneriaeth gyda Liverpool Culture Company ac Urban Cultural Network fel rhan o ddatblygiadau Prifddinas Diwylliant Lerpwl wedi arwain at nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus. Mae digwyddiad terfynol yn Lerpwl wedi'i gynllunio ar gyfer Rhagfyr '08.					

NB: Mae'r data uchod yn gronnus oni nodir fel arall.

Hepgorwyd yr ystadegyn blaenorol 4 – am nifer y dyfarniadau a roddir gan rai rhaglenni – gan nad oedd iddo unrhyw ddiben defnyddiol.

Dangosyddion Perfformiad

Targedau'r Cynllun Strategol Corfforaethol

Dyma chweched flwyddyn ein Cynllun Strategol 2002-08 ac mae'r nodiadau canlynol yn sylwadau ar ein cynnydd tuag at fodloni'r targedau rydym wedi'u gosod i'n hunain yn ystod oes y cynllun.

Dangosydd 1

Mae cyfanswm y dyfarniadau grant sydd wedi mynd i grantiau llai na £1m wedi gwella ers ffigur y llynedd. Wrth osod y targed yn 2002, fe wnaethom amcangyfrif yn rhy isel y galw mawr am broiectau cyfalaf yn y sector treftadaeth a oedd angen ein cefnogaeth. Tra'r oeddem yn canolbwyntio ein hadnoddau ar annog ymgeiswyr llai a oedd angen symiau o dan £1 miliwn, roedd y broiectau cyfalaf mawr yn anochel yn mynd â'r rhan fwyaf o'n harian. Fodd bynnag, hyd yn oed wrth eithrio'r miloedd o grantiau treftadaeth a ddyfarnwyd dan y rhaglen Arian i Bawb, roedd dros 96% o'n dyfarniadau i broiectau a oedd angen llai nag £1 miliwn. Rydym yn cyfrif Cynlluniau Menter Treftadaeth Treflun a Phartneriaeth Tirwedd yn ffigur y grantiau o dan £1m.

Dangosydd 2

Rydym wedi bodloni'r targed hwn. Yn rhan olaf cyfnod y Cynllun Strategol, fe wnaethom leihau nifer y dyfarniadau dros £5 miliwn, gan adlewyrchu'r gostyngiad yn ein cyllidebau grantiau yn dilyn y newid yn y ffordd y dosberthir incwm buddsoddi, ac i baratoi ar gyfer cyllid Loteri yn cael ei ddargyfeirio i helpu i ariannu Gemau Olympaidd 2012.

Dangosydd 3

